



## **Hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriad ar bolisi amodau trosglwyddo – Awst 2018**

Caiff unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r ymgynghoriad hwn (megis eich enw, manylion cyswllt, gwaith neu leoliad) ei phrosesu yn unol â'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi i gyflawni ein tasg gyhoeddus fel rheoleiddiwr y system gymwysterau yng Nghymru ac i arfer ein swyddogaethau swyddogol o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Cymwysterau Cymru fydd "Rheolydd Data" y data hyn.

Rydym yn cadw eich manylion cyswllt er mwyn bodloni gofynion ein polisi ymgynghori er mwyn cefnogi ein prif egwyddorion, sef:

- sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
- hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at unrhyw ddibenion eraill heblaw am gyflawni ein tasg gyhoeddus. Caiff y data hyn eu storio ar weinyddwyr Smart Survey yn yr UE i ddechrau. Nid yw Smart Survey yn defnyddio eich ymatebion i arolygon gan mai cynnal y gwasanaeth ar ran Cymwysterau Cymru yn unig a wna. Cymwysterau Cymru sy'n berchen ar eich ymatebion ac yn eu rheoli (am ragor o fanylion darllenwch [bolisi preifatrwydd](#) Smart Survey yma). Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, caiff y data eu hallforio a'u dileu o Smart Survey o fewn tri mis a chânt eu trosglwyddo i'n systemau TG. Caiff data personol, gan gynnwys data a gasglwyd mewn unrhyw ymatebion i eitemau unigol yn ystod yr ymgynghoriad, eu dileu o'r set ddata 12 mis ar ôl cyhoeddi unrhyw adroddiadau ar ymgynghoriadau neu benderfyniadau. Caiff pob ymateb arall i eitemau unigol yn ystod yr ymgynghoriad ei ddileu ar ôl tair blynedd.

## Rhyddid Gwybodaeth

Nodwch, fel corff cyhoeddus, fod unrhyw wybodaeth ysgrifenedig a gedwir gennym yn agored i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Byddwn yn ystyried Deddf Diogelu Data 2018 y DU a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) cyn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol y gofynnir amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

### Eich Hawliau

Yn amodol ar rai eithriadau cyfreithiol, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- gwneud cais am gopi o'r wybodaeth bersonol y mae Cymwysterau Cymru yn ei chadw amdano
- gofyn i Cymwysterau Cymru gywiro unrhyw wallau
- gofyn am i'ch data personol gael eu dileu
- cyfyngu ar ein gallu i brosesu eich data
- gwrthwynebu'r camau prosesu

Gallwn ddileu data personol o'r ymatebion a gasglwyd gennym os gofynnir i ni wneud hynny, gan gynnwys unrhyw fanylion cyswllt neu bersonol a roddwyd wrth gwblhau'r holiadur ac unrhyw fanylion personol sydd wedi'u cynnwys yn nhestun eich ymatebion.

Os ydym wedi cyhoeddi adroddiad sy'n defnyddio data personol a roddwyd yn eich ymateb, naill ai mewn dadansoddiad meintiol neu ar ffurf dyfyniadau, ni fyddai modd i ni ei eu dileu o'r adroddiad.

Am fwy o wybodaeth am yr hawliau hyn, ewch i [wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

Anfonwch unrhyw geisiadau o'r fath at

Swyddog Diogelu Data Cymwysterau Cymru  
Cymwysterau Cymru  
Adeilad Q2, Lôn Pencarn,  
Parc Imperial,  
Coedcernyw  
Casnewydd  
NP10 8AR

01633 373222

[dpo@qualificationswales.org](mailto:dpo@qualificationswales.org)

Os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb, gallwch gwyno i [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113 (cyfradd leol) neu 01625 545 745